# GWYBODAETH AM
# Y PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Annwyl Riant neu Warcheidwad,**

**Ydy eich plentyn yn ystyried ei gamau nesaf ar ôl gadael addysg amser llawn?**

I wneud yn siŵr ei fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o opsiynau a llwybrau gyrfa sydd ar gael roeddem yn awyddus i rannu rhywfaint o wybodaeth gyda chi am y cymwysterau prentisiaeth sydd ar gael yng Nghymru.

Mae prentisiaethau ar gael i unrhyw un dros 16 oed a gellir eu dilyn mewn amrywiaeth eang o rolau ar draws 23 sector gwahanol – o'r diwydiannau gofal iechyd a chreadigol i wyddorau bywyd a pheirianneg.

Mae gan brentisiaethau lawer o fanteision i bobl ifanc, gan gynnwys:

- Dod yn fwy annibynnol yn ariannol.
- Ennill cyflog wrth ddysgu.
- Gwella annibyniaeth a hyder.

Mae gwahanol lefelau sy'n addas i bob dysgwr, felly gallai eich plentyn ddechrau prentisiaeth ar ôl TGAU, lefel A neu hyd at lefel gradd lle bydd yn astudio mewn lleoliad ymarferol wrth ennill cymhwyster prifysgol.

Os yw eich plentyn yn ystyried prentisiaeth fel llwybr i fyd gwaith a hyfforddiant pellach, gallwch gael rhagor o wybodaeth am brentisiaethau, sut mae gwneud cais, y sectorau maent ar gael ynddynt yn ogystal â ffeithiau a manteision allweddol mewn canllaw i rieni sydd wedi'i lunio gan Lywodraeth Cymru.

Gallwch lwytho'r canllaw i lawr yma yn Gymraeg neu Saesneg:
**www.llyw.cymru/prentisiaethau-canllaw-i-rieni**

I gael rhagor o wybodaeth am brentisiaethau yng Nghymru, ewch i **llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth** neu ffoniwch **0800 028 4844.**

Fel arall, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm gyrfaoedd
[rhowch enw'r ysgol]
lle bydd ein tîm yn hapus i gynnig cymorth a chyngor.

Cofion cynnes,

[Pennaeth/Pennaeth Blwyddyn/Tiwtor Dosbarth]

PRENTISIAETHAU
DEWIS DOETH

Prentisiaethau
Apprenticeships